**PRIFFYRDD, CYMRU**

# 2008 Rhif

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (THOMSON HOUSE, PARK STREET, CAERDYDD) 200-**

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *200-* |
| *Yn dod i rym* | *200-* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer eu pwerau o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990**(1)** (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "Deddf 1990"), a phob pŵer galluogi arall, yn gwneud y Gorchymyn hwn**(2)**.

**1.** Yn y Gorchymyn hwn:–

ystyr "y Cyngor" ("*the Council*") yw Cyngor Dinas a Sir Caerdydd;

ystyr "y datblygwr" ("*the developer*") yw'r person sy'n gwneud y datblygiad y rhoddwyd ar ei gyfer y caniatadau cynllunio y cyfeirir atynt isod;

ystyr "y plan a adneuwyd" ("*the deposited plan*") yw'r plan o'r enw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Thomson House, Park Street, Caerdydd) 200-" sy'n dod gyda'r Gorchymyn hwn.

**2.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthyglau 3, 4 a 5 o'r Gorchymyn hwn, mae Gweinidogion Cymru yn awdurdodi cau'r rhannau o brifffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn ac a ddangosir â llinellau sebra ar y plan a adneuwyd, gan eu bod wedi'u bodloni ei bod yn angenrheidiol cau'r briffordd er mwyn:-

(1) galluogi'r gwaith datblygu a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Gorchymyn hwn i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd o

dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 27 Hydref 2006 o dan gyfeirnod 06/1378/C; a

(2) galluogi'r gwaith datblygu a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Gorchymyn hwn i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd o dan Ran III o Ddeddf 1990 gan y Cyngor ar 18 Medi 2006 o dan gyfeirnod 06/01385/C.

**3.** Ni chaniateir cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwn hyd oni fydd:—

(a) y datblygwr wedi darparu, er boddhad rhesymol y Cyngor, blaniau sy'n dangos ym mha fodd y bwriedir cau'r darnau o briffordd sydd i'w cau;

(b) hyd nes y bydd y datblygiadau y cyfeirir atynt yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn wedi'u dechrau a bod y datblygwr wedi hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig ei bod yn angenrheidiol cau'r priffyrdd i alluogi'r datblygiad i fynd rhagddo; ac

(c) hyd nes y bydd y Cyngor wedi ysgrifennu at y datblygwr i gadarnhau bod darpariaethau (a) a (b) o'r erthygl hon wedi'u cyflawni a'i fod yn fodlon ynghylch y materion a nodir yn (a) o'r erthygl hon.

**4.** Os bydd, yn union cyn cau'r rhannau o briffordd yn unol â'r Gorchymyn hwn, unrhyw gyfarpar ymgymerwyr statudol neu ddarparwyr cyfathrebu cyhoeddus o dan y briffordd, ynddi, arni, drosti, ar ei hyd neu ar ei thraws, yna (yn ddarostyngedig i adran 261(4) o Ddeddf 1990), bydd gan yr ymgymerwyr neu'r darparwyr yr un hawliau o hyd o ran y cyfarpar ag a oedd ganddynt cyn cau'r rhannau o briffordd.

**5.** Os na fydd y datblygiad y cyfeirir ato yn erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn wedi'i ddechrau o fewn y cyfnod perthnasol a bennir yn Rhan III o Ddeddf 1990 fel hyd y caniatâd cynllunio, neu os yw'r caniatâd yn cael ei ddirymu cyn diwedd y cyfnod hwnnw, bydd y Gorchymyn hwn yn peidio â bod yn effeithiol pan ddaw'r caniatâd cynllunio i ben.

**6.** Bydd y Gorchymyn hwn yn weithredol ar y dyddiad y caiff yr hysbysiad ei fod wedi ei wneud ei gyhoeddi gyntaf yn unol ag adran 252(10) o Ddeddf 1990. Enw'r Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Cau Priffyrdd (Thomson House, Park Street, Caerdydd) 200-".

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog dros yr Economi a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 200-

**S C SHOULER**
Cyfarwyddwr Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**(1)** 1990 p.8.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, a pharagraff 30 o Atodlen 11 I'r Ddeddf honno, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## ATODLEN 1

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**<u>Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Rhan o briffordd ar siâp triongl, sy'n rhan o Park Street wrth ei chyffordd â Scott Road y tu allan i Thomson House, sy'n 5.1 metr o hyd yn ei man hiraf ac yn 5 metr o led yn ei man lletaf, ac yn dwyn y label A ar y plan a adneuwyd.

Rhan o briffordd ar siâp triongl, sy'n rhan o Park Street wrth ei chyffordd â Havelock Street y tu allan i Thomson House, sy'n 4.8 metr o hyd yn ei man hiraf ac yn 4.8 metr o led yn ei man lletaf, ac yn dwyn y label B ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

### Y Datblygiad Arfaethedig

Codi adeilad sy'n 6,096 o fetrau sgwâr ar gyfer swyddfeydd (defnydd dosbarth B1) gyda gwelliannau cysylltiedig, o ran parcio a gwaith ar dir cyhoeddus, yn Thomson House, Park Street, Caerdydd.

## ATODLEN 3

### Y Datblygiad Arfaethedig

Codi gwesty â 250 o welyau yn Thomson House, Park Street, Caerdydd.

**DEDDF CYNLLUNIO GWLAD A THREF 1990**

**GORCHYMYN CAU PRIFFYRDD (THOMSON HOUSE, PARK STREET, CAERDYDD) 200-**

**HYSBYSIR DRWY HYN** fod Gweinidogion Cymru yn bwriadu gwneud Gorchymyn o dan adran 247 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn awdurdodi cau'r rhannau o briffordd a ddisgrifir yn Atodlen 1 i'r Hysbysiad hwn.

Os gwneir y Gorchymyn, nid awdurdodir cau'r briffordd ond er mwyn:

(1) galluogi'r gwaith datblygu a ddisgrifir yn Atodlen 2 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a roddwyd gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ar 27 Hydref 2006 o dan gyfeirnod 06/1378/C; a

(2) galluogi'r gwaith datblygu a ddisgrifir yn Atodlen 3 i'r Hysbysiad hwn i gael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio amlinellol a roddwyd gan Gyngor Dinas a Sir Caerdydd ar 18 Medi 2006 o dan gyfeirnod 06/01385/C.

Bydd effaith y Gorchymyn yn peidio os daw'r caniatâd cynllunio i ben neu os caiff y caniatâd hwnnw ei ddirymu.

Yn ystod yr 28 o ddiwrnodau o 5 Chwefror 2008 ymlaen, gellir archwilio copïau o'r Gorchymyn a'r plan a adneuwyd yn rhad ac am ddim yn swyddfeydd Cyngor Sir Caerdydd, Neuadd y Sir, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd, CF10 4UW yn ystod oriau swyddfa arferol, neu gellir eu cael yn rhad ac am ddim o'r cyfeiriad isod drwy ddyfynnu cyfeirnod Llywodraeth Cynulliad Cymru, sef CZ510-05-71-91.

Yn ystod y cyfnod uchod o 28 niwrnod, caiff unrhyw berson wrthwynebu gwneud y Gorchymyn, drwy hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Y Gangen Orchmynion, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ (gan ddyfynnu cyfeirnod CZ510-5-71-91). Os ydych yn dymuno gwrthwynebu, cefnogi neu gyflwyno sylwadau, efallai y bydd arnom angen

ymgynghori â phobl a sefydliadau y tu allan i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Fel rhan o'r broses o ymgynghori ag eraill, bydd yr wybodaeth yr ydych wedi'i rhoi i ni a'ch data personol yn cael eu trosglwyddo i'r ceisydd/i'r datblygwr ac yn achlysurol i'r awdurdod priffyrdd lleol i'w galluogi hwy i ymateb i chi. Ni fyddwn, fodd bynnag, yn datguddio eich manylion personol ond pan fo hynny'n angenrheidiol i'n galluogi i ddelio â'r materion yr ydych wedi tynnu'n sylw atynt. Pan fydd Gorchymyn Cau yn dod yn destun Ymchwiliad Cyhoeddus (YC), bydd pob gohebiaeth yn cael ei chopïo i Arolygydd yr Ymchwiliad ac fe'i cedwir yn y Llyfrgell YC lle y bydd ar gael i'r cyhoedd.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn http://newydd.cymru.gov.uk/legislation/?lang=cy (dewiser 'Deddfwriaeth/Deddfwriaeth ddrafft/Offerynnau Anstatudol Drafft/Deddf Cynllunio Gwlad A Thref: Gorchmynion Cau').

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, Trafnidiaeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**M D BURNELL**
Yr Is-adran Cynllunio a Gweinyddu Trafnidiaeth
Llywodraeth Cynulliad Cymru

**ATODLEN 1**

**(Bras amcan yw pob mesuriad)**

**<u>Disgrifiad o'r rhannau o briffordd sydd i'w cau o dan y Gorchymyn hwn</u>**

Rhan o briffordd ar siâp triongl, sy'n rhan o Park Street wrth ei chyffordd â Scott Road y tu allan i Thomson House, sy'n 5.1 metr o hyd yn ei man hiraf ac yn 5 metr o led yn ei man lletaf, ac yn dwyn y label A ar y plan a adneuwyd.

Rhan o briffordd ar siâp triongl, sy'n rhan o Park Street wrth ei chyffordd â Havelock Street y tu allan i Thomson House, sy'n 4.8 metr o

hyd yn ei man hiraf ac yn 4.8 metr o led yn ei man lletaf, ac yn dwyn y label B ar y plan a adneuwyd.

## ATODLEN 2

### Y Datblygiad Arfaethedig

Codi adeilad sy'n 6,096 o fetrau sgwâr ar gyfer swyddfeydd (defnydd dosbarth B1) gyda gwelliannau cysylltiedig, o ran parcio a gwaith ar dir cyhoeddus, yn Thomson House, Park Street, Caerdydd.

## ATODLEN 3

### Y Datblygiad Arfaethedig

Codi gwesty â 250 o welyau yn Thomson House, Park Street, Caerdydd.